# Casglu tystiolaeth ac ymchwil i lywio polisïau addysg a sgiliau ôl-16: Mapio anghenion sgiliau i gyfranogiad mewn addysg uwch

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Crynodeb

Dyma gyfle cyffrous i wneud lleoliad gwaith ar brosiect ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd yr interniaeth wedi'i lleoli yn y gangen ymchwil Addysg a Sgiliau Ôl-16, sy'n darparu cymorth dadansoddol ar gyfer addysg drydyddol, maes polisi proffil uchel sy'n newid yn gyflym.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gynnal ymchwil i lywio penderfyniadau polisi. Bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi, datblygu sgiliau casglu tystiolaeth ymhellach a gwella eu gwybodaeth am ymchwil y tu allan i'r byd academaidd. Bydd angen sgiliau casglu data meintiol ac ansoddol, ynghyd â'r gallu i weithio'n gyflym a chyflwyno canfyddiadau mewn ffordd hawdd ei deall.

## Y sefydliad

Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru sy'n gyfrifol am yr economi, addysg, iechyd a'r GIG yng Nghymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus ac amgylchedd Cymru.

Yn benodol, bydd yr interniaeth wedi'i lleoli o fewn y gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS). Mae KAS yn casglu, dadansoddi a chyflwyno ymchwil a data ar gyfer llunwyr polisïau a'r cyhoedd yn unol â safonau proffesiynol. Maent yn cynnig tystiolaeth annibynnol i ddeall, datblygu, gweithredu, monitro a gwerthuso polisïau'r llywodraeth. Mae KAS hefyd yn cefnogi cydweithwyr polisi i ddatblygu, gweithredu a chyflawni polisïau.

## Yr interniaeth

Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru, gan gynnal ymchwil a gwaith dadansoddi i gefnogi'r gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol a'r is-adran Sgiliau. Bydd yr interniaeth yn gyfle cyffrous i weithio wrth galon Llywodraeth Cymru. Bydd yr intern yn gweithio'n agos gyda swyddogion polisi ac ymchwilwyr, a bydd cyfle iddynt roi eu sgiliau ymchwil ar waith mewn amgylchedd polisi, i ddatblygu mwy ar eu sgiliau cyffredinol (megis ysgrifennu adroddiadau a gwneud cyflwyniadau) a chyfoethogi eu gwybodaeth am bolisi.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn elwa ar gyfleoedd datblygu a gynigir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn gynnwys mentora, cysgodi, cefnogaeth gan gymheiriaid a hyfforddiant.

Bydd interniaid yn elwa ar y profiad o gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru:

- Meithrin gwell dealltwriaeth o'r byd y tu allan i'r byd academaidd a chynyddu cyflogadwyedd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i gyfrannu at waith Llywodraeth Cymru.
- Gall cydweithwyr yr intern yn Llywodraeth Cymru gynnig goleuni pellach ar ei brosiect PhD a all gyfrannu at lwyddiant y thesis, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio o fewn y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r maes ymchwil
- Sgiliau a gwybodaeth trosglwyddadwy
- Sgiliau rheoli amser
- Sgiliau ysgrifennu adroddiadau

## Y prosiect

### Mapio anghenion sgiliau i gyfranogiad mewn addysg uwch

*Cefndir*

Mae addysg uwch yn chwarae rhan hanfodol ar gyfer datblygu sgiliau. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynyddu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch aliniad cymwysterau ôl-16 â'r rhagamcanion o ran anghenion sgiliau yng Nghymru. Bydd y prosiect yn cyfrannu at werthuso diwygiadau Diamond i gyllid myfyrwyr, a weithredwyd yn 2018/2019.

Nod y prosiect yw casglu tystiolaeth am ddulliau gwledydd eraill o gynllunio sgiliau, tystiolaeth am anghenion sgiliau Cymru, a thystiolaeth a gwaith dadansoddi ar sut mae cyfranogiad mewn addysg uwch (israddedig ac ôl-raddedig) yn cyd-fynd â'r anghenion hyn. Bydd y prosiect yn edrych ar y systemau sy'n cyfrannu at wella canlyniadau o'r wybodaeth sydd ar gael yn ogystal â datblygu darlun clir o'r materion sy'n codi a'r grwpiau yr effeithir arnynt.

Bydd yr union ffocws a thasgau yn dod yn glir yn agosach at y dyddiadau cychwyn.

Mae'r interniaeth yn debygol o gynnwys:

- Ymgysylltu â swyddogion polisi i ddeall bylchau tystiolaeth a datblygu cwestiynau ymchwil
- Gweithio agos gyda swyddogion o gyrff hyd braich (gan gynnwys Medr)
- Adolygiadau o dystiolaeth bresennol gan Lywodraeth Cymru ac ymchwil ehangach, gan gynnwys gwerthusiadau o brosiectau/ymyriadau polisi, yn ogystal ag allbynnau ystadegol sy'n gysylltiedig â'r mater dan sylw, er enghraifft, mae'r Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn darparu tystiolaeth ar anghenion sgiliau Cymru.
- Ymwybyddiaeth o bolisi Llywodraeth y DU a'r cynlluniau ar gyfer diwygio yn y maes, ac adolygiad ohonynt
- Ymchwil ansoddol ar raddfa fach i edrych ar brofiadau rhanddeiliaid mewn perthynas â materion polisi.

Mae'r prosiect yn debygol o gynnwys nodi gwaith ymchwil ac allbynnau ystadegol o'r gorffennol sy'n berthnasol i'r pwnc, ac adolygu'r data ansoddol a meintiol y maent yn eu darparu. Bydd hefyd yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r astudiaethau hynny ac yn darparu cipolwg newydd ar safbwyntiau rhanddeiliaid, gan nodi heriau a meysydd i'w gwella.

Bydd yn bwysig ystyried y dystiolaeth hon yng nghyd-destun y sefyllfa o ran blaenoriaethau polisi ar hyn o bryd (gan gynnwys cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn ehangach) yn ogystal â chyd-destun ehangach prentisiaethau, diwygio cymwysterau galwedigaethol, Diwygio'r Cwricwlwm, diwygio cymwysterau 14-16, ac ati.

*Canlyniadau disgwyliedig y prosiect:*

- *Adroddiad technegol byr a fyddai'n cynnwys y canlynol:*
    - *Adolygiad o'r hyn y mae'r data ei ddweud wrthym*
    - *Trafodaeth o'r dewisiadau methodolegol a wnaed a'r effaith ar y canfyddiadau*
    - Argymhellion ar gyfer ymchwil a/neu bolisi yn y dyfodol yn seiliedig ar ganfyddiadau

- Argymhellion ar gyfer ymchwil a/neu bolisi yn y dyfodol yn seiliedig ar ganfyddiadau
- Cyhoeddi adroddiad ymchwil ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cyfrifoldebau a gofynion yr interniaeth

hyd at dri mis. Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar yr interniaeth am ei gyfnod, yn unol â chanllawiau ESRC (Canllaw Cyllido Ôl-raddedig ESRC tud. 27). Anogir ceisiadau gan fyfyrwyr rhan-amser.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng adref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod ei interniaeth. Gall hyn newid yn ddibynnol ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i drefniadau gweithio yn cael eu trafod gydag ymgeiswyr llwyddiannus.

Bydd yr interniaeth yn para am gyfnod o 3 mis amser llawn neu'r hyn sy'n cyfateb yn rhan-amser. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, mae'r interniaeth hon ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy (dim llai na thri diwrnod yr wythnos waith), i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, nodwch eich dewis oriau gwaith ar y ffurflen gais.

**Manyleb myfyriwr**

**Gofynion ar y myfyriwr:**

- Rhaid i'r myfyriwr allu cyfathrebu â'r tîm polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil desg ar ffactorau perthnasol
- Rhaid i'r myfyriwr fod â sgiliau cadarn o ran adolygu llenyddiaeth a gwerthuso tystiolaeth, gan gynnwys y gallu i gyfuno ystod eang o dystiolaeth
- Rhaid i'r myfyriwr fod â'r gallu i lunio a chynnal cyfweliadau â rhanddeiliaid a dadansoddi data ansoddol
- Rhaid i'r myfyriwr fod â'r gallu i werthuso canfyddiadau ymchwil a'u cymhwyso i gyd-destun polisi Cymru.
- Y gallu i greu dogfennau cryno sydd wedi'u hysgrifennu'n dda, gan gyflwyno deunydd cymhleth mewn ffurf hygyrch.

## Dyddiad dechrau'r interniaeth

Ionawr 2026 (union ddyddiad i'w drafod). Efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a chostau

Gellir talu costau teithio rhesymol i fyfyrwyr nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli yng Nghaerdydd. Dylai ceisiadau fod yn gyson â chanllawiau sgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (YGGCC). Ni fydd ceisiadau gan fyfyrwyr sydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer teithio a llety yn cael eu trin yn llai ffafriol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am hyn, cysylltwch â Katy Marrin Katy.Marrin001@gov.wales a Jo Coates Joanne.Coates@gov.wales

## Diogelwch

Mae gweithdrefnau fetio Llywodraeth Cymru (sy'n berthnasol i staff dros dro yn ogystal â staff parhaol) yn cynnwys cwblhau ffurflen gais Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch ar gyfer y broses fetio.

Mae'r broses hon yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno tri math gwreiddiol o ddogfen adnabod. Dylai un o'r rhain fod yn ddogfen â llun (pasbort, trwydded yrru newydd), dylai un ddogfen ddangos y cyfeiriad presennol, a gallai'r trydydd math fod yn fil cyfleustodau, tystysgrif geni, P45 neu P60.

## Gofynion cenedligrwydd

Mae bod yn gymwys i gymryd rhan mewn prentisiaeth ar y cynllun hwn yn dibynnu ar gwrdd â rheolau cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni all y rheini sydd ddim yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd gymryd rhan mewn gwirfoddoli.

## Ymholiadau

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r swydd neu'r broses ymgeisio at Jess Steventon, pennaeth y tîm ymchwil ôl-16, Jessica.steventon@llyw.cymru

## Hysbysiad preifatrwydd

https://www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru